# Diogelu’r amgylchedd trwy orfodi cyfreithiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys diogelu'r amgylchedd trwy orfodi cyfreithiol. Mae'n ymdrin â'r angen i orfodi cydymffurfio â rheoliadau perthnasol a/neu â'r dddeddfwriaeth (yn cynnwys is-ddeddfau) i ddiogelu'r amgylchedd.

Dylai gorfodi fod yn angenrheidiol dim ond os yw dulliau eraill o ddatrys problemau ac anghydfodau e.e. trafod, rhybuddion ac ati, wedi methu. Mae'n cynnwys y gweithgareddau sydd yn gysylltiedig â nodi a chadarnhau'r angen am orfodi ac ysgogi'r gweithdrefnau gorfodi eu hunain.

Mae'r safon hon yn debygol o fod yn berthnasol i Swyddogion Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Rhodwyr mewn sefyllfaoedd gwledig, arfordirol a threfol ac eraill sydd angen gorfodi â'r ddeddfwriaeth sydd yn gysylltiedig â'u hardal waith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod ac archwilio achosion o honiadau o beidio â chydymffurfio â rheoliadau neu ddeddfwriaeth i ddiogelu'r amgylchedd
2. amseru eich ymchwiliadau yn unol â graddfa'r perygl neu'r anghyfleustra i ddefnyddwyr yr amgylchedd
3. casglu a chofnodi tystiolaeth o honiadau o beidio â chydymffurfio gan y ffynonellau perthnasol a'u cadarnhau lle y bo'n bosibl
4. nodi'r rheiny sy'n gyfrifol am dorri rheoliadau neu ddeddfwriaeth
5. gwerthuso dichonoldeb atebion ar wahân i orfodi cyfreithiol i ddiogelu'r amgylchedd, a rhoi gweithredu amgen ar waith lle y bo'n bosibl
6. cael cyngor ar y broses orfodi a'i goblygiadau gan gynghorwyr arbenigol perthnasol, lle bo angen
7. sefydlu'r angen am orfodi cyfreithiol i ddiogelu'r amgylchedd lle mae gweithredoedd eraill wedi methu neu'n amhriodol
8. casglu tystiolaeth gan dystion, yn unol â'r gofynion cyfreithiol, creu cofnodion a chytuno arnynt gyda thystion
9. paratoi ar gyfer camau cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r cynghorwyr cyfreithiol perthnasol
10. ysgogi camau cyfreithiol ar yr adeg berthnasol a'u cefnogi gyda thystiolaeth
11. monitro cydymffurfio â chamau cyfreithiol ac adolygu'r angen am weithredu pellach
12. nodi a threfnu gweithredu diofyn i ddatrys problemau lle y bo'n berthnasol
13. cadw at yr holl ofynion cyfreithiol perthnasol, codau ymarfer, strategaeth a pholisïau eich sefydliad drwy'r amser
14. trefnu cymorth perthnasol lle gallai gweithredu gynnwys cyswllt â phobl ymosodol neu sarhaus
15. atal gweithgareddau dros dro lle mae eich diogelwch eich hun ac eraill o dan fygythiad, ac adolygu gweithredu pellach
16. adolygu'r angen am orfodi cyfreithiol lle mae'r camau adferol gofynnol wedi cael eu cymryd
17. cadw cyfrinachedd cofnodion fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a'ch sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*